

Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGAau)

- 1. Diben y canllawiau**
- 2. Cefndir y Cynlluniau**
- 3. Cefndir Polisi**
- 4. Materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw mewn Cynllun**
- 5. Ymgynghori ar y Cynllun**
- 6. Y broses ar gyfer cyflwyno Cynllun drafft ac amserlen flynyddol**
- 7. Ffurf a chynnwys y Cynllun**
- 8. Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill**
- 9. Cysondeb â deddfwriaeth a meysydd polisi perthnasol**
- 10. Defnyddio data i gefnogi gwaith cynllunio**
- 11. Deilliannau Cynlluniau**

1. Diben y canllawiau

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Yn unol ag adran 87(5), rhaid i Awdurdod Lleol ystyried y canllawiau. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, dylai fod ganddynt resymau clir dros wneud hynny. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Nod y ddogfen hon yw cynnig canllawiau clir er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i lunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd ("Cynlluniau") o 2021 ymlaen. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn newid y cylch ar gyfer y Cynlluniau o'r cylch 3 blynedd presennol i gylch 10 mlynedd o 2021 ymlaen. Mae'r ddogfen hon yn nodi sail resymegol Llywodraeth Cymru a'r cyd-destun polisi ehangach ar gyfer y penderfyniad hwn, yn ogystal â'r prif newidiadau sydd i'w cyflwyno mewn Cynlluniau.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau yng nghylch 2021-31 yn glir ac yn cynnig canllawiau i staff ac aelodau pob Awdurdod Lleol ar sut i ddechrau cynllunio, yn ogystal â chanllawiau ar y prosesau monitro ac adrodd a ddefnyddir drwy gydol y Cynllun.

2. Cefndir y Cynlluniau

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*¹ ("Deddf 2013") yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun. Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Gall Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:

- cymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd
- cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu
- wrthod y Cynllun a llunio cynllun arall a gaiff ei drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod

Mae isadran (6) o adran 85 yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Lleol i gymryd pob cam rhesymol i roi ei Gynllun cymeradwy ar waith. Mae adran 87 o Ddeddf 2013 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaethau pellach ynghylch materion megis ffurf a chynnwys CSGA, ei amseriad a'i hyd, adolygu'r CSGA yn rheolaidd, ymgynghori a chyflwyno'r CSGA i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau.

*Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Gymraeg (Cymru) 2013*² ("Rheoliadau 2013"), oedd y rheoliadau

¹<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents>

²<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3048/contents/made>

cyntaf a wnaed o dan bwerau adran 87. Ynghyd â Deddf 2013, maent yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gan Awdurdodau Lleol. Cwmpasai'r cynlluniau strategol cyntaf y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014 a 2017. Rydym bellach yn yr ail iteriad sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017-2020.

Y Cynllun yw'r adnodd cynllunio iaith hirdymor ar gyfer Awdurdodau Lleol, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, darparu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, drwy'r cynlluniau hyn bydd Awdurdodau Lleol yn gallu cyfrannu'n sylweddol at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Dim ond drwy waith cynllunio ieithyddol effeithiol ym mhob rhan o'r llywodraeth yng Nghymru y gellir adfywio'r iaith a chyflawni'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr. Er bod cynllunio ieithyddol yn cael ei ystyried yn genedlaethol, yn aml nid yw canllawiau nac arweiniad clir wedi cael eu rhoi ar lefel ranbarthol na lleol. Mae gwaith cynllunio ieithyddol effeithiol yn gofyn am ddealltwriaeth o'r amgylcheddau gwahanol a geir mewn rhannau gwahanol o Gymru ac mae angen cynllunio ymyriadau ar y sail hon. At hynny, mae'n rhaid i waith cynllunio ieithyddol cenedlaethol a lleol rannu'r un nod ac amcanion, a ddylai fod yn seiliedig ar y nod a amlinellir yn Cymraeg 2050.

Fel rhan o'r broses, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad a chanllawiau clir o ran cynllunio ieithyddol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i ymgymryd â'r broses gynllunio mewn ffordd systematig ac uchelgeisiol.

3. Cefndir Polisi

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015³ yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o dan adran 84 o Ddeddf 2013.

Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen 2016-2021⁴ ym mis Medi 2016, a'i nod yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethu'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Maent yn fesurau uchelgeisiol a fydd yn cael effaith ar bawb ar bob cam o'u bywyd.

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents>

⁴ <https://llyw.cymru/symud-cymru-ymlaen>

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a pharhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd yn cael ei nodi'n benodol yn Symud Cymru Ymlaen.

Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru⁵ ym mis Awst 2017. Am y tro cyntaf, mae gennym weledigaeth glir ar gyfer Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Mae'r targedau cyffredinol ar gyfer y strategaeth hon fel a ganlyn:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 filiwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y dysgwyr ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru.

Mae Cymraeg 2050 yn gofyn am gymorth gan Awdurdodau Lleol i ymateb i'n huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, a hynny drwy ddangos arweinyddiaeth glir ac ymrwymiad i rannu'r un weledigaeth hirdymor. Mae angen i'r ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer Awdurdodau Lleol mewn perthynas â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu dyheadau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg dros y 30 mlynedd nesaf fel y'u nodir yn Cymraeg 2050. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gydweithio i gymryd camau sylweddol, systematig a rhagweithiol i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg.

Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Hefyd, bydd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus drwy ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y

⁵ <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>

cyfnod addysg statudol, a bydd yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg. Drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.

Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rydym wedi gosod y targedau canlynol sy'n gofyn am newidiadau yn y system addysg:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith mlwydd oed yn 2015-16) i 30% (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40% (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.
- Trawsnewid y ffordd rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny yn dweud, erbyn 2050, eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.
- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd a all addysgu yn Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 a 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg o 500 i 900 yn 2031 a 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 a 4,200 erbyn 2050.

Er mwyn helpu i gyflawni strategaeth Cymraeg 2050, dylai cynlluniau fod wedi'u strwythuro o amgylch saith deilliant (gweler Adran 10) sy'n seiliedig ar gyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y strategaeth a'i chynllun gweithredu yn ogystal ag yn *Cymraeg mewn Addysg: cynllun gweithredu*⁶. Mae'r deilliannau hefyd wedi'u llunio mewn ffordd sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr. Mae'r targedau perthnasol yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050 ar gyfer 2017-21 fel a ganlyn.

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a darparwyr i wella'r ffordd y maent yn cynllunio darpariaeth blyneddodded cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn hwyluso dilyniant rhwng grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg i'w gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol yng Nghymru a sicrhau bod cysylltiad annatod rhwng asesu a phrofi sgiliau Cymraeg a gwybodaeth am y Gymraeg ac addysgu a dysgu.
- Creu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy waith cynllunio uchelgeisiol gyda thargedau cyflawnadwy ond realistig wrth wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau sy'n bodoli eisoes. Gall hyn gynnwys buddsoddiad cyfalaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

⁶<https://llyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021>

- Adolygu diffiniadau a chategoriâu'r ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel y cyfrwng cyfarwyddo.
- Adolygu'r broses o gynyddu cyfran yr addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.
- Atgyfnerthu ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael gafael ar addysg cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cynradd neu uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol ar gyfer hwyrdyfiaid.
- Datblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol sydd â'r nod o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.
- Atgyfnerthu cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar a'r sector ôl-16 er mwyn gwella cyfraddau dilynant rhwng gwahanol gyfnodau addysg.
- Cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'r gweithlu addysg a hyfforddiant a all addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn sylweddol.

Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Yn 2017, cynhaliodd Aled Roberts adolygiad brys o'r Cynlluniau⁷ a oedd yn cydnabod yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau er mwyn egluro cyfrifoldebau a disgwyliadau Awdurdodau Lleol a rhan ddeiliaid eraill.

Tynnodd yr adolygiad hwnnw sylw at yr angen i ni newid y ffordd yr ydym yn cynllunio yn sylweddol er mwyn llwyddo i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a nododd fod y canllawiau a'r gofynion deddfwriaethol sydd ar waith ar hyn o bryd yn annigonol. Dyma sydd wedi arwain at adolygu a diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau ar gyfer 2021 ymlaen, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i greu fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau strategol tymor hwy.

4. Materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw mewn Cynllun

O 2021 ymlaen, bydd dwy brif elfen i'r broses o adrodd ar hynt Cynllun, sef:

- Cynllun gwaith blynyddol
- Adroddiad cynnydd blynyddol

Ceir templedi ar gyfer y cynllun gwaith blynyddol a'r adroddiad cynnydd blynyddol yn Atodiad 1.

Disgwylir i Awdurdodau Lleol lunio eu Cynlluniau yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd. Felly, bydd Cynlluniau 2021-31 yn dechrau ar 1 Medi 2021.

⁷ <https://gweddi.gov.wales/docs/dcells/publications/170804-rapid-review-of-wesp-cy.pdf>

Mae Atodlen 1 i Reoliadau 2019 yn nodi'r materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw mewn Cynllun. Maent yn cynnwys:

Cynllunio rhagweithiol ar sail targedau.

Yn ôl Cymraeg 2050, er mwyn i ni greu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus, rhaid i ni gymryd camau breision i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd – yn enwedig dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn nodi bod yn rhaid i ni symud i ffwrdd oddi wrth system gynllunio sy'n seiliedig ar fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ffordd systematig a rhagweithiol. Mae'n cydnabod bod angen i ni greu mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg, manteisio ar gynlluniau a chyfleoedd economaidd i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau, dros amser, fod mwy o ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg yn cyflwyno cyfran uwch o'r cwricwlwm yn Gymraeg er mwyn rhoi sylfeini ieithyddol cadarn i ddysgwyr.

Mae adran 84(1)(b) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") yn nodi bod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynnwys targedau yn eu cynllun ar gyfer gwella'r ffordd y caiff darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal ei chynllunio.

Felly, bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol ddatblygu eu Cynllun ar gyfer 2021-31 ar sail targedau heriol ond cyflawnadwy.

Bydd y targedau lleol yng nghylch 2021-31 yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu canran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2031, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau Awdurdodau Lleol yn y Cynlluniau.

Rydym yn deall yr angen i ystyried pob ardal ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol ei hun. Mae modelu newid mewn demograffeg yn y dyfodol, ac effaith y newid hwnnw, yn broses gymhleth. Felly, byddwn yn ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu methodoleg y gallai Awdurdodau Lleol seilio eu targedau arni. Ein nod fydd rhoi arweiniad a chanllawiau ar sut y gall pob Awdurdod Lleol, drwy eu dulliau gwahanol, gyfrannu at gyflawni'r targed cenedlaethol cyffredinol. Bydd y broses hon yn drafodaeth ddwyffordd er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor.

Bydd y fethodoleg a gaiff ei llunio gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i osod eu targedau yn annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu targedau o fewn ystod. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd canran pob blwyddyn ysgol o fewn addysg cyfrwng Cymraeg o fewn ystod o 23% i 25% ar gyfer awdurdod penodol. Dylai fod yn bosibl i Awdurdodau Lleol, ar sail targedau mesuradwy y cytunwyd arnynt, gyfrifo'r nifer ychwanegol o leoedd ysgol neu ysgolion newydd sydd angen eu cynllunio yn ystod oes y cynllun.

Cynigir y dylai'r targedau ar gyfer pob Awdurdod Lleol gael eu cyfrifo ar sail nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy ddefnyddio data 2017/18 fel llinell sylfaen. Cynigir y dylid dosbarthu pob Awdurdod Lleol i un o bedwar grŵp o Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar y ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei darparu ym mhob ardal, a gan ystyried hefyd ganran bresennol y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan y trefniadau presennol, mae'r CSGAau yn mesur nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir mewn Cymraeg iaith gyntaf. Er bod y broses o gasglu data cenedlaethol asesiadau athrawon yn parhau i gynnwys nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae'n debygol y bydd hyn yn newid neu y caiff ei disodli gan drefniadau asesu newydd wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno dros y blynyddoedd i ddod.

Felly, er mwyn mesur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar sail gyson wrth i drefniadau'r cwricwlwm newydd gael eu rhoi ar waith, byddwn yn cyfeirio at ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 1 sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd hyn yn seiliedig ar newidyn 'Astudio'r Gymraeg' ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 1 a gesglir yn CYBLD, sy'n nodi sut maent yn astudio Cymraeg yn yr ysgol. Defnyddir hyn fel mesur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob Awdurdod Lleol.

Mae'r fethodoleg lawn i'w gweld yn Atodiad 2.

5. Ymgynghori ar y cynllun

Yn seiliedig ar y gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("*Rheoliadau 2019*") mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ymgynghori â'r rhan ddeiliaid a restrir isod.

- Awdurdodau Lleol cyfagos
- pennaeth pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod
- corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod
- pob sefydliad yn y sector addysg bellach yn yr ardal
- mewn perthynas ag unrhyw ysgol sylfaen neu ysgol wirfoddol yn yr ardal –
 - yr unigolyn sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr
 - os oes gan yr ysgol nodweddion crefyddol, y corff crefyddol perthnasol

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn nodi pa bersonau rhagnodedig eraill y mae angen ymgynghori â nhw, sef:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon

- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (os yw'n gymwys)
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Cyrff sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried eu bod yn addas
- Unigolion a chyrrff eraill y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried eu bod yn addas.

6. Y broses ar gyfer cyflwyno Cynllun drafft ac amserlen flynyddol

Cyflwyno cynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo

Mae Rheoliad 5 o Reoliadau 2019 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu cynllun 10 mlynedd drafft cyntaf i Weinidogion Cymru erbyn 31 Ionawr 2021. Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol gyflwyno pob cynllun 10 mlynedd dilynol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn y daw'r cynllun yn weithredol.

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gymeradwyo'r Cynllun, ei gymeradwyo gyda diwygiadau neu ei wrthod a llunio cynllun arall a gaiff ei drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r cynllun cyntaf tan fis Mai 2021.

Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, daw'r Cynllun cyntaf yn weithredol ar 1 Medi 2021 a daw i ben ar 31 Awst 2031.

Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru yn methu â gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r Cynllun erbyn 1 Medi, daw'r cynllun yn weithredol un mis calendr o ba ddyddiad bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r Cynllun a daw i ben fel y nodir o dan reoliad 4 o Reoliadau 2019 (e.e. 31 Awst 2031 ar gyfer y Cynllun cyntaf), oni fydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu gwrthod y cynllun a chyflwyno cynllun diwygiedig yn ei le (gweler isod).

Cyhoeddi'r cynllun

Mae rheoliadau 9 a 10 o Reoliadau 2019 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu Cynlluniau ar eu gwefannau ar yr un dyddiad ag y daw'r cynllun (neu'r cynllun diwygiedig) yn weithredol.

Y broses ar gyfer adolygu'r Cynllun ac adrodd arno

O dan adran 84 o Ddeddf 2013, mae dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i lunio Cynllun, ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiwygio os bydd angen.

Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu eu cynlluniau a chyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol yn seiliedig ar yr adolygiad hwnnw i Weinidogion Cymru erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'n rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2022.

Yr adroddiad cynnydd blynyddol

Dylai Awdurdodau Lleol gynnwys y canlynol yn eu hadroddiadau cynnydd blynyddol:

- Y prif gyflawniadau
- Cerrig milltir allweddol
- Data blynyddol allweddol
- Cysondeb â meysydd polisi eraill a strategaethau Awdurdodau Lleol eraill
- Y prif faterion/risgiau
- Mesurau rhoi sicrwydd/liniaru
- Gweithredu a monitro
- Y prif bwyntiau ar gyfer pob deilliant.

Bwriedir i'r adroddiad cynnydd blynyddol nodi'r prif bwyntiau allweddol mewn perthynas â gweithredu Cynlluniau. Dylai Awdurdodau Lleol ddarparu dolenni i adroddiadau, dogfennau ategol, astudiaethau achos a ffurflenni hunanwerthuso os bydd angen rhagor o wybodaeth ar Weinidogion Cymru.

Ceir templed adroddiad blynyddol yn Atodiad 2. Datblygwyd y templed hwn yn dilyn y broses o gynnig cyfle i Awdurdodau Lleol gyflwyno adroddiad prif bwyntiau yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf ym mis Rhagfyr 2019. O ganlyniad, cafwyd gwybodaeth gliriach gan Awdurdodau Lleol unigol a arweiniodd at well adborth a champau gweithredu dilynol gan Lywodraeth Cymru.

Cynllun gwaith blynyddol

Bwriedir i'r cynllun gwaith blynyddol fod yn ddogfen weithio ymarferol a fydd yn helpu Awdurdodau Lleol i olrhain cynnydd yn y byrdymor. Gallai'r cynllun gwaith blynyddol gael ei ddefnyddio a'i fonitro gan y fforwm cynllunio addysg Gymraeg i olrhain cynnydd yn ystod y flwyddyn. Gallai'r cynllun gwaith gynnwys y canlynol;

- Targedau meintiol clir o dan bob deilliant
- Cysylltiad clir rhwng y targedau a'r ymrwymadau o dan bob deilliant
- Data allweddol
- Yr unigolyn cyfrifol ar gyfer pob targed
- Amserlen glir ar gyfer pob targed
- Y wybodaeth ddiweddaraf
- Proses monitro mewnol yr awdurdod gan gynnwys y fforwm cynllunio addysg Gymraeg.

Gallai Awdurdodau Lleol ystyried sicrhau eu bod yn cyhoeddi eu cynlluniau ac adroddiadau a dogfennau cysylltiedig yn glir ar eu gwefannau fel y gall unrhyw sefydliad neu unigolyn â diddordeb gael gafael arnynt yn hawdd.

Ceir templed cynllun gwaith yn Atodiad 3.

Pryd y dylai Awdurdod Lleol ddiwygio ei gynllun

Mae rheoliad 7(3) o Reoliadau 2019 yn darparu, os bydd Awdurdod Lleol yn penderfynu diwygio ei gynllun, fod yn rhaid iddo gyflwyno'r cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis calendr ar ôl i'r adroddiad cynnydd blynyddol gael ei gyflwyno.

Wrth benderfynu p'un a ddylid diwygio Cynllun ai peidio dylai'r Awdurdod Lleol ystyried unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad blynyddol yr Awdurdod Lleol, lle y gallai swyddogion herio neu gwestiynu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targed 10 mlynedd. Gallai hyn ddigwydd unrhyw bryd yn ystod amserlen 10 mlynedd Cynllun. Ymhlith y materion eraill y dylai Awdurdodau Lleol eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid diwygio Cynllun ai peidio mae ffactorau megis cynnydd sydyn annisgwyl yn nhwf y boblogaeth sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar drefniadau trefniadaeth ysgolion neu gyfyngiadau cyllidebol eraill. Ni fyddem yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ail-gyfrifo'r targed cyffredinol unwaith eto wrth ddiwygio eu cynllun ond byddem yn disgwyl iddynt addasu'r targedau fel y'u nodir o fewn y saith deilliant.

Mae rheoliad 7(5) o Reoliadau 2019 yn darparu y bydd Cynllun diwygiedig yn dod yn weithredol 1 mis calendr ar ôl i Gynllun diwygiedig gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Bydd y Cynllun diwygiedig hwn, ar yr adeg honno, yn disodli'r Cynllun blaenorol. Bydd y Cynllun diwygiedig yn weithredol am weddill y cyfnod o 10 mlynedd.

7. Ffurf a chynnwys y Cynllun

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau 2019 mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gynnwys y datganiadau a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2019 yn eu cynlluniau.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Lleol gynnwys y canlynol yn eu cynlluniau:

- Gweledigaeth glir a chryno sy'n seiliedig ar y targed y cytunwyd arno
- Proffil addysg lleol (nifer y dysgwyr o oedran ysgol, nifer pob math o ysgol o dan bob categori a nifer y dysgwyr ym mhob categori o ysgolion)
- Data allweddol ar gyfer pob deilliant (y llinell sylfaen bresennol ac amcanestyniadau)
- Unrhyw gynlluniau neu ffactorau lefel uchel sy'n effeithio ar addysg yn y sir (e.e. 106)
- Nodau ac amcanion clir o dan y 7 deilliant

- Cysylltiad clir rhwng y ffordd y mae pob agwedd ar y cynllun yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r targed cyffredinol
- Cysylltiad clir rhwng y cynllun a strategaethau Awdurdodau Lleol eraill a meysydd polisi perthnasol.

8. Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill

Er mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio strategol, mae gan nifer o grwpiau a sefydliadau eraill rôl allweddol i'w chwarae o ran llunio'r Cynllun a monitro'r ffordd y mae'n cael ei roi ar waith a'i ddatblygiad yn rheolaidd drwy gydol oes y Cynllun. Mae'r grwpiau a'r sefydliadau perthnasol yn cael arian gan Lywodraeth Cymru at ddibenion hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o'r amodau sydd ynghlwm wrth yr arian hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod dyletswydd ar y grwpiau a'r sefydliadau hyn i gydweithio ag Awdurdodau Lleol ar faterion perthnasol, gan gynnwys y Cynllun.

Dylai Awdurdodau Lleol wneud pob ymdrech i feithrin a chynnal cydberthynas waith adeiladol ag unrhyw grŵp neu sefydliad sy'n cyfrannu at roi'r Cynllun ar waith, gan gynnwys y canlynol:

Fforwm cynllunio Cymraeg mewn Addysg

Mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi sefydlu fforymau er mwyn eu helpu i ddrafftio Cynlluniau. Mae'r fforymau hefyd yn cyflawni rôl craffu a monitro ac yn herio lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol. Mae gan fforymau rôl allweddol i'w chwarae wrth weithio ochr yn ochr gyda'r Awdurdod Lleol i roi darlun cynhwysfawr o unrhyw fylchau mewn darpariaeth, meysydd i'w datblygu, deilliannau llwyddiannus ac arfer da.

Mae fforymau yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at roi Cynlluniau Awdurdodau Lleol ar waith, yn ogystal â sefydliadau perthnasol sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi datblygu cylch gorchwyl clir i'r fforwm?

Consortia

Awdurdodau Lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol am ddatblygu Cynlluniau a'u rhoi ar waith. Er mai Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio strategol mewn perthynas â phob deiliant ac adrodd ar gynnydd ar lefel sir, **dylent** gydweithio'n agos â'r

consortia rhanbarthol perthnasol wrth gynllunio a datblygu eu Cynlluniau ar gyfer 2021-31 er mwyn egluro cyfrifoldebau o'r cychwyn.

At hynny, dylai Awdurdodau Lleol sicrhau eu bod yn meithrin ac yn cynnal cydberthynas adeiladol â consortia rhanbarthol drwy gydol oes y cynllun er mwyn sicrhau eglurder o ran rôl y ddau sefydliad wrth gynllunio a monitro deilliannau Cynlluniau ac adrodd arnynt. Bydd cydweithio effeithiol â consortia rhanbarthol hefyd yn hwyluso unrhyw drefniadau a chyfleoedd ar gyfer gweithio'n strategol gydag Awdurdodau Lleol cyfagos.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A yw eich consortia rhanbarthol yn arwain grŵp rhanbarthol i drafod materion sy'n ymwneud â Chynlluniau? Os nad ydyw, allwch chi awgrymu y dylai wneud hynny?

9. Cysondeb â deddfwriaeth a meysydd polisi perthnasol

Er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor mewn addysg cyfrwng Cymraeg, dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod y meysydd polisi sy'n effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn eu Cynlluniau yn gwbl gyson â'i gilydd.

Ystyrir bod y canlynol yn berthnasol i Gynllun:

- Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif
- Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant
- Cytundebau Adran 106
- Gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Y cod derbyn i ysgolion
- Addysg ôl-16
- Strategaethau Hyrwyddo 5 mlynedd o dan safonau'r Gymraeg

Dylai Awdurdodau Lleol ddangos yn glir yn eu hadroddiadau blynyddol sut maent yn ystyried pob un o'r meysydd polisi perthnasol gyda'i gilydd a hefyd yn eu croesgyfeirio at ddibenion cynllunio hirdymor er mwyn cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg.

10. Defnyddio data addysg i gefnogi gwaith cynllunio

Er mwyn sicrhau cynllunio strategol a systematig, disgwylir i Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r holl ffynonellau data addysg sydd ar gael iddynt yn effeithiol. Bydd defnyddio'r data hyn yn bwysicach nag erioed wrth i ni symud tuag at system

gynllunio sy'n seiliedig ar dargedau. Disgwylir i Awdurdodau Lleol wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau a'r data sydd eisoes ar gael iddynt e.e. Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, data ADY, data CYBLD, data Mudiad Meithrin.

11. Deilliannau cynlluniau

Mae'r deilliannau canlynol yn adlewyrchu deilliannau *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21*, ac yn ystyried y nodau mwy cyffredinol a nodir yn *Cymraeg 2050* a'i chynllun gweithredu. Mae'r deilliannau hefyd wedi'u llunio mewn ffordd sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr.

- Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol)
- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan y saith deilliant, nodir yr hyn y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei gynnwys a'r hyn y dylent ei gynnwys. Daw'r datganiadau y nodir bod yn rhaid eu cynnwys yn uniongyrchol o Reoliadau 2019 neu Atodlen 2 mewn perthynas â Rheoliadau 2019. Y datganiadau y nodir y dylid eu cynnwys yw'r ffordd fwyaf effeithiol, ym marn Llywodraeth Cymru, y gall Awdurdodau Lleol gyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion yn Cymraeg 2050.

Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio data a gafwyd o'i adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer ei ardal (o dan ddyletswyddau a nodir yn rheoliad 3 o Reoliadau Deddf Gofal Plant (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016) i lywio'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.

YSTYRIAETHAU CYNLLUNIO

A ydych wedi ystyried sut y gall cyflwyno a datblygu Dechrau'n Deg helpu i gyflawni'r deilliant hwn? Mae hyn yn cynnwys ystyried canran a nifer y lleoedd gofal plant o dan fenter Dechrau'n Deg a gynigir mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a sut y gellid cymhwyso eich targed carfan er mwyn helpu i ddatblygu hyn ymhellach.

A ydych wedi sicrhau bod eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni a darpar rieni sy'n darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yng nghartref y teulu, yn gwybod sut i gael gafael ar lenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg a gwybodaeth am ddsbarthiadau Cymraeg sydd ar gael.

A oes gennych strategaeth glir ar waith gyda sefydliadau megis Mudiad Meithrin ar gyfer sicrhau cynnydd megis targedu meysydd penodol/materion allweddol?

Pa ymgyrchoedd gan Lywodraeth Cymru y gallwch fanteisio arnynt sy'n hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn eich ardal? E.e. Bydd negeseuon cenedlaethol am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ymchwil gydnabyddedig - gallwch ddefnyddio'r rhain mewn ymgyrchoedd hyrwyddo lleol neu drydar/cyfeirio rhieni at lenyddiaeth ddefnyddiol.

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu nifer y plant meithrin sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn codi ymwybyddiaeth o faterion a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r Gymraeg er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol ar bob lefel pan wneir penderfyniadau ynghylch darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol a helpu i'w hehangu.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn helpu rhieni/gofalwyr plant meithrin o oedran meithrin mewn addysg anstatudol cyfrwng Cymraeg i drosglwyddo i addysg Gymraeg statudol.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi datblygu ymyriadau penodol i ddarparu gwybodaeth gywir er mwyn helpu rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybodaeth i rieni am y math o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi cynnal trafodaethau â thîm derbyniadau eich ALI er mwyn sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr yn cael ei chynnwys yn eich llyfryn/trefniadau derbyn am addysg cyfrwng Cymraeg? A yw'r wybodaeth yn eich llyfryn hefyd ar gael ar eich gwefan?

A yw'r adran sy'n cael ymholiadau gan rieni wedi cael hyfforddiant ar sut i drafod opsiynau cyfrwng Cymraeg â rhieni?

A ydych wedi sicrhau eich bod wedi ystyried yn llawn daith y defnyddiwr drwy'r prosesau y bydd rhieni/gwarcheidwaid yn mynd drwyddynt er mwyn dewis ysgolion i'w plant, er mwyn dangos sut yn union y mae'r system honno yn cyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg i rieni/gwarcheidwaid heb fod angen iddynt chwilio amdani?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn lledaenu gwybodaeth am y ffaith bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bob plentyn, ni waeth beth fo'i gefndir ieithyddol, ynghyd â gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â chludiant dysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi sicrhau bod y ddau faes polisi hyn yn cyd-fynd â'i gilydd o fewn eich Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb?

- Sut y caiff eich gweledigaeth ar gyfer cynyddu capasiti yn y sector cyfrwng Cymraeg ei gwireddu drwy eich Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a'ch Rhaglen Addysg.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi cynnwys gwybodaeth am bob cais sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd i ddod?

- Os yw unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn trothwy capasiti o 10%, neu'n agosáu at y ffigur hwnnw, nodwch eich cynlluniau ar gyfer sicrhau bod digon o leoedd ar gael.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych yn mesur cyfanswm y lleoedd gwag neu a ydych yn monitro'r carfannau sy'n ymuno â'r ysgol er mwyn osgoi sefyllfa argyfyngus wrth i leoedd lenwi drwy'r ysgol a galluogi blaengynllunio?

A ydych wedi pennu statws Coch Melyn Gwyrdd (RAG) ar gyfer lefel isaf a lefel uchaf er mwyn cyrraedd canrannau targed gofynnol fel y gellir eu hadolygu a datblygu cynlluniau/cynigion ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth os bydd nifer y lleoedd yn cyrraedd canran allweddol o leoedd gwag e.e. 5%? A yw'r ffigur hwn ar gyfer pob carfan unigol neu'r ysgol gyfan?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg yn eich Awdurdod Lleol.

Data allweddol y dylai Awdurdodau Lleol eu cynnwys yn y cynllun hefyd er mwyn ategu'r datganiadau:

- Nifer a chanran y plant tair oed sy'n cael darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen mewn lleoedd N2 a ariennir yn nhymer yr hydref bob blwyddyn.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi siarad â'r tîm cyllid addysg sy'n defnyddio nifer y lleoedd i wneud taliadau? A ydych yn defnyddio'r un adeg o'r flwyddyn bob blwyddyn i'ch galluogi i ystyried unrhyw dueddiadau o ran yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthy'ch? Sut rydych yn defnyddio'r data ar dueddiadau i ddeall a yw eich gweithgarwch hyrwyddo yn gweithio ai peidio?

Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd unrhyw geisiadau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu gwneud am arian grant gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwariant ar ysgolion a gynhelir yn ei ardal, yn ystyried targed yr Awdurdod Lleol i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi sicrhau bod eich ceisiadau am arian o dan Raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn llwyr adlewyrchu'r hyn a ddisgwylir gan eich ALI o fewn y targedau a nodir yn y CSGA ac yn ymateb iddo?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd er mwyn sicrhau parhad o ran y trefniadau ar gyfer pobl sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r sir y maent yn byw ynddi.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid am y math o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn rhannu gwybodaeth am y math o addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, a bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i blant Cymraeg eu hiaith a phlant nad ydynt yn siarad Cymraeg.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi ystyried pa bethau a all fod yn achosi pryder i rieni/gwarcheidwaid a ph'un a ydych wedi mynd i'r afael â'r pryderon hynny fel rhan o'r wybodaeth/lleenyddiaeth rydych yn ei dosbarthu?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- Trefniadau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'i ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y caiff gwybodaeth ei rhoi i rieni a gwarcheidwaid.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi ystyried sut rydych yn rhannu gwybodaeth glir yn rhagweithiol â rhieni/gwarcheidwaid ar unrhyw adeg yn ystod addysg eu plant fod y ddarpariaeth hon yn bodoli ac y gallant fanteisio arni a beth yn union y mae'n ei olygu?

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi amlinellu sut rydych wedi nodi ysgolion at y diben hwn yn strategol ac wedi amlinellu'r camau ar gyfer y broses hon megis gweithio gyda'r pennaeth/rhieni/cymuned ysgol, recriwtio a hyfforddiant i staff ac ati?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu'r addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir mewn unrhyw ysgolion a gynhelir ganddo sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg.

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol:

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith, y rhai nad ydynt wedi dod i gysylltiad â'r iaith o'r blaen, ac unrhyw senario arall, fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog/ffrwd ddeuol.

Data allweddol y dylai Awdurdodau Lleol eu cynnwys yn y cynllun hefyd er mwyn ategu'r datganiadau:

- Nifer y plant pump oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg (CYBLD)
- Nifer y plant pump oed mewn addysg ddwyieithog (CYBLD)
- Nifer y dysgwyr a addysgir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn Awdurdodau Lleol cyfagos
- Nifer y dysgwyr sy'n cael cymorth hwyrdyfiaid
- Data ar gyfran/canran yr addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl categori'r ysgol

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A gaiff data CYBLD eu casglu ar ddyddiad penodol bob blwyddyn? A ydych yn nodi'r nifer a'r ganran?

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau parhad o ran yr unigolion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt drosglwyddo o'r naill grŵp blwyddyn i'r llall a chynllunio yn unol â hynny os yw cyfraddau cadw yn achos pryder i'r awdurdod.

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol:

- Y dulliau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu defnyddio i fonitro dilyniant ieithyddol.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynllunio'n briodol i gynyddu lefelau trosglwyddo os bydd y mater hwn yn achosi pryder.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi nodi ffyrdd y gall ysgolion cynradd ac uwchradd weithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol?

- Cyfraddau dilyniant presennol a rhagamcanol ar gyfer pob cam.

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu nifer a chanran yr unigolion 15 oed a throsodd ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer unigolion 14-19 oed drwy gydweithio ag ysgolion eraill a SABau os oes angen.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu darpariaeth Cymraeg fel pwnc i unigolion 15 oed a throsodd ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir drwy gydweithio ag ysgolion eraill a SABau os oes angen.

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg (heb gynnwys Cymraeg a llenyddiaeth Gymraeg).
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio pum pwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg (heb gynnwys Cymraeg a llenyddiaeth Gymraeg).
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro'r sefyllfa mewn ysgolion unigol mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Data allweddol y dylai Awdurdodau Lleol eu cynnwys yn y cynllun hefyd er mwyn ategu'r datganiadau:

- Nifer a chanran y dysgwyr 15 oed a throsodd sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer a chanran y dysgwyr 15 oed a throsodd a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer a chanran y dysgwyr 15 oed a throsodd sy'n astudio Cymraeg fel pwnc mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg
- Nifer y dysgwyr sy'n astudio dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer y dysgwyr sy'n astudio pum pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg mewn unrhyw ysgolion a gynhelir ganddo.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi cysylltu'r deilliant hwn â strategaeth hyrwyddo'r Awdurdod Lleol?

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn mapio ac yn cynllunio darpariaeth **mewn partneriaeth** â sefydliadau megis yr Urdd a Menter Iaith er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi chwarae rhan arweiniol yn y gwaith hwn?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro darpariaeth yn barhaus er mwyn sicrhau y caiff anghenion dysgwyr yn yr Awdurdod Lleol eu diwallu o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi ystyried is-grŵp o'ch fforwm i arwain y gwaith hwn?

- Nifer yr ysgolion yn yr Awdurdod Lleol sy'n gweithredu fframwaith y Siarter Iaith neu raglenni tebyg.
- Sut y caiff darpariaeth ei chynllunio a'i hariannu yn unol â'r targedau yn y Cynllun.

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018⁸)

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio canfyddiadau adolygiadau o ADY (o dan adran 63 o'r Ddeddf ADY) i lywio gwaith cynllunio o fewn y Cynlluniau mewn perthynas â deilliannau i ddysgwyr ag ADY.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi sicrhau eich bod yn croesgyfeirio at y dyletswyddau a nodir yn y Bil ADY er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu yn yr Awdurdod Lleol?

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol;

- Adolygiad llawn o'r ddarpariaeth (yn dilyn yr un gofynion ag adran 63 o'r Ddeddf ADY).
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu maint a gallu'r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r canlyniadau i gynllunio'r gweithlu yn y sector hwn.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill a chonsortia rhanbarthol er mwyn cynyddu a gwella'r ddarpariaeth.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi ystyried cynnal archwiliad o'r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael yn eich Awdurdod Lleol er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY yn ogystal â'r ffordd rydych yn rhannu adnoddau yn yr Awdurdod Lleol ac yn rhanbarthol?

- Sut mae'r Awdurdod Lleol yn monitro symudiadau dysgwyr o'r sector cyfrwng Cymraeg i'r sector cyfrwng Saesneg, yn nodi unrhyw batrymau/anawsterau ac yn cynllunio yn unol â hynny er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn niferoedd.

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted>

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

O dan yr Atodlen i Reoliadau 2019, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol;

- Ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i roi sylw i fater cynllunio'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion a gynhelir yn ei ardal, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol eraill a darparwyr cyrsiau neu raglenni hyfforddiant athrawon ysgol cychwynnol.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A ydych wedi ystyried nid yn unig y bylchau presennol ond hefyd yr hyn sydd ei angen wrth ystyried targed yr Awdurdod Lleol ar gyfer cynnydd dros y 10 mlynedd nesaf/cais i'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif ac ati?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd i gynllunio a darparu cymorth er mwyn gwneud y canlynol;
 - a) Gwella sgiliau Cymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal;
 - b) Gwella sgiliau addysgu'r athrawon ysgol a'r gweithwyr cymorth dysgu hynny sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal.
 - Ymrwymiad yr Awdurdod Lleol, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill, i sicrhau y rhoddir sylw i'r Cynllun wrth ystyried safonau addysg cyfrwng Cymraeg ysgolion a gynhelir yn ei ardal.

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol;

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol ac Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.
- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod digon o weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion ar gael i'r sector cyfrwng Cymraeg.

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn helpu athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn eich Awdurdod Lleol i ddefnyddio cyrsiau Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn strategol ac yn systematig, gan gynnwys cynllunio a darparu cymorth i unigolion ar ddiwedd cwrs.

YSTYRIAETH GYNLLUNIO

A oes gennych gynllun ar waith i gofnodi nifer yr unigolion sydd wedi dilyn cyrsiau, lle maent wedi'u lleoli yn yr Awdurdod Lleol, a beth yw'r camau nesaf i sicrhau dilyniant?

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn adlewyrchu sgiliau Gymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn gywir pan fyddant yn cwblhau cyfrifiad gweithlu ysgolion ac yn defnyddio data'r cyfrifiad i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a dysgu proffesiynol.

Data allweddol y dylai Awdurdodau Lleol eu cynnwys yn y cynllun hefyd er mwyn ategu'r datganiadau:

- Faint o swyddi gwag sydd yn yr Awdurdod Lleol yn ôl y sector cynradd a'r sector uwchradd.
- Nifer yr athrawon sydd eu hangen yn yr awdurdod – yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol ac er mwyn ymateb i dargedau'r awdurdod.
- Nifer y penaethiaid sydd eu hangen yn yr awdurdod – yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol ac er mwyn ymateb i dargedau'r awdurdod.
- Defnyddio cyfrifiad gweithlu ysgolion i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu.

Atodiad 1 - Methodoleg arfaethedig ar gyfer cyfrifo targedau i'w cynnwys yng Nghynlluniau Strategol 10 mlynedd y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdodau Lleol

1. Y sefyllfa bresennol

Mae strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr](#), yn cynnwys y nod o gynyddu'r gyfran o ddysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r taflwybr a ddatblygwyd ar gyfer *Cymraeg 2050* yn cynnwys targedau cerrig milltir yn ystod 2021, 2031 a 2040 i gynyddu canran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 24 y cant erbyn 2020/21, 30 y cant erbyn 2031 a 40 y cant erbyn 2050. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2017/18, o'r 36,200 o ddysgwyr ym mlwyddyn 2, cafodd rhyw 22 y cant (sef 8,000) eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf).

Mae'r Rheoliadau drafft yn gwneud darpariaethau sy'n dweud bod rhaid i Awdurdod Lleol baratoi eu Cynlluniau ar sail ystod o dargedau dros gyfnod o 10 mlynedd. O dan y trefniadau presennol, mae'r CSGA yn mesur nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a aseswyd yn Gymraeg iaith gyntaf. Mae casglu data cenedlaethol o asesiadau athrawon yn debygol o barhau i fesur nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 a gaiff eu hasesu yn Cymraeg iaith gyntaf am y tro. Fodd bynnag, gall hyn newid wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno dros y blynyddoedd i ddod ac efallai y caiff ei ddisodli gan drefniadau asesu newydd.

Rydym am sicrhau ein bod yn gallu mesur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn gyson yn ystod y broses o weithredu trefniadau newydd y cwricwlwm. O'r herwydd, penderfynwyd seilio'r fethodoleg hon ar ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn seiliedig ar y newidyn 'Astudio'r Gymraeg' ('Study of Welsh') ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 1 a gesglir yn CYBLD, sy'n nodi sut maent yn astudio Cymraeg yn yr ysgol – addysg Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith (neu dad-gymhwyswyd o'r cwricwlwm). Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel mesur o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob Awdurdod Lleol.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae nifer a chanran y **plant Blwyddyn 1** sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi newid dros amser, ac mae'n gyson â'r modd y bwriadwn fesur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol (gan gynnwys y targed o 24 y cant erbyn 2020/21).

Am y rheswm hwn, rydym yn fodlon bod y cam i fesur y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio data CYBLD ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 sy'n cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cefnogi'r targedau a amlinellir ar y taflwybr a ddatblygwyd ar gyfer strategaeth *Cymraeg 2050*.

Tabl 1: Plant Blwyddyn 1 yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2011/12 i 2017/18

	2011/1 2	2012/1 3	2013/1 4	2014/1 5	2015/1 6	2016/1 7	2017/1 8	2018/1 9	2019/2 0	2020/2 1
Nifer	7,671	7,831	8,104	7,856	8,110	8,124	8,2958			8,400
Cyfanswm	33,231	34,055	35,537	34,674	35,302	35,936	35,531			35,000
Canran	23.1%	23.0%	22.8%	22.7%	23.0%	22.6%	23.3%			24%

Mae canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros o gwmpas 23 y cant ers 2011/12. Mae hyn yn gyson â chanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a gaiff eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf drwy gasglu data cenedlaethol asesiadau athrawon. Fodd bynnag, gan fod cyfanswm **nifer** y plant ym Mlwyddyn 1 wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2011/12, mae **nifer** y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu o dros 620. Mae hyn gyferth â bron 21 dosbarth (o 30 dysgwr).

Nododd gwybodaeth o CYBLD 2017/18 bod tua **23 y cant o ddysgwyr dosbarth Derbyn** (tua 8,000 o blant) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg – bydd y plant hyn ym Mlwyddyn 1 yn 2018/19. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod yr wybodaeth ar gyfer dysgwyr derbyn yn anghyflawn gan nad yw'n ofynnol i ysgolion gofnodi'r wybodaeth hon ar gyfer dysgwyr dan 5 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn flaenorol.

2. Y dyfodol

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar ddysgwyr 7,700 saith oed yn 2015/16) i **30 y cant** erbyn **2031** (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn), ac yna **40 y cant** erbyn **2050** (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn).

Felly, mae angen cyfrifo targedau ar gyfer pob Awdurdod Lleol er mwyn pennu llwybr clir ar gyfer cyrraedd y targedau cenedlaethol. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen un targed ar gyfer pob Awdurdod Lleol, yn seiliedig ar nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 1 fel yr amlinellir uchod, nid ar gyfanswm y dysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn. Bydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ym mhob grŵp blwyddyn, felly bydd y targed yn seiliedig ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1, sy'n cynrychioli cychwyn y cyfnod addysg statudol. Data CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yw'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer dysgwyr yn ystod cyfnodau cynharaf addysg ysgol gynradd.

Nid yw hyn yn golygu na fydd angen rhoi ystyriaeth i ddata o amgylch dysgwyr Blwyddyn 2, neu ddata ar ddilyniant dysgwyr rhwng y cyfnodau allweddol amrywiol mwyach. Mae'r angen i'r CSGA barhau i ddangos sut mae plant sy'n derbyn

darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, neu sy'n cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, yn cael eu cefnogi a'u hannog i barhau ar eu taith ieithyddol, yn fwy perthnasol nag erioed.

3. Methodoleg arfaethedig

Cynigir bod Awdurdodau Lleol yn cyfrifo eu targed ar sail nifer y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddefnyddio data 2017/18 fel llinell sylfaen. Mae'r fethodoleg arfaethedig hon yn ystyried yr ystod o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy gyflwyno system grŵp. Mae'r ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth grwpio awdurdodau yn cynnwys: canran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg; y modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod a natur ieithyddol Awdurdod Lleol. Mae hyn yn egluro pam y gallai rhai Awdurdodau Lleol fod wedi'u gosod mewn un grŵp er bod eu canran gwaelodlin o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18 yn uwch na rhai o'r Awdurdodau Lleol mewn grŵp arall.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn decach gan ei fod yn cydnabod yr heriau gwahanol sy'n wynebu'r 22 Awdurdod Lleol. Mae hefyd yn glir i'r holl Awdurdodau Lleol beth y mae Gweinidogion Cymru yn credu ddylai eu cyfraniad fod wrth gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cynigir bod gan bob grŵp o Awdurdodau Lleol darged i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl amrediad sefydlog o gynnydd mewn pwyntiau canran, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ym mhob Awdurdod Lleol gan ddefnyddio data 2017/18 fel man cychwyn. Mae ychwanegu targedau o fewn ystod is ac uwch, yn ogystal â grwpio ardaloedd yn ôl eu darpariaeth bresennol yn cydnabod ymhellach y bydd y man cychwyn ar gyfer pob awdurdod yn wahanol ac y bydd llwybr pob awdurdod tuag at gyrraedd y targedau hynny yn amrywio.

Mae'r pedwar grŵp o Awdurdodau Lleol fel a ganlyn.

Tabl 2: Grwpiau o Awdurdodau Lleol ar gyfer cyfrifo targedau, gan gynnwys canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018

Canran y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, 2017/18	
Grŵp 1	
Ynys Môn	87.3
Gwynedd	98.3
Grŵp 2	
Conwy	25.3
Dinbych	25.5
Powys	20.1

Ceredigion	78.5
Sir Benfro	19.9
Sir Gaerfyrddin	58.0
Castell-nedd Port Talbot	17.3

Grŵp 3

Wreccsam	13.0
Abertawe	15.5
Bro Morgannwg	15.1
Rhondda Cynon Taf	19.2
Merthyr Tudful	12.8
Caerffili	17.9
Caerdydd	16.7

Grŵp 4

Sir y Fflint	6.6
Pen-y-bont ar Ogwr	8.7
Blaenau Gwent	3.3
Torfaen	12.1
Sir Fynwy	5.7
Casnewydd	5.5

Grŵp 1

Mae'r mwyafrif helaeth o blant Blwyddyn 1 (mwy na 85 y cant yn 2017/18) eisoes yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Awdurdodau Lleol hyn. Addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw'r norm ac mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn eithriadau prin.

Grŵp 2

Roedd rhwng 17 y cant a 79 y cant o blant Blwyddyn 1 yn yr Awdurdodau Lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18. Efallai mai addysg gymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg yw'r norm, neu ei bod yn norm mewn nifer sylweddol o gymunedau o fewn yr Awdurdod Lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.

Grŵp 3

Roedd rhwng 13 y cant a 19 y cant o blant Blwyddyn 1 yn yr Awdurdodau Lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18. Efallai mai addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw'r norm mewn un/nifer fach iawn o ardaloedd, ond dyma'r eithriad Nid y rheol. Fel arfer mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.

Grŵp 4

Roedd 12 y cant neu lai o blant blwyddyn 1 yn yr Awdurdodau Lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/2018. Mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg yn yr Awdurdodau Lleol hyn.

Cynigir bod pob grŵp o Awdurdodau Lleol yn cyfrifo eu targed i gynyddu canran y plant blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar sail amrediad sefydlog o gynnydd pwyntiau canran, sy'n seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol ym mhob Awdurdod Lleol, a chan ddefnyddio data 2017/18 fel gwaelodlin.

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amrediad o gynnydd mewn pwyntiau canran mewn plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a ddisgwylir ar gyfer pob grŵp o Awdurdodau Lleol er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol o 30 y cant o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31. Bydd pob Awdurdod Lleol yn perthyn i un o'r grwpiau canlynol, fel sydd wedi'i amlinellu uchod.

Tabl 3: Ystod y cynnydd mewn pwyntiau canran yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob grŵp o Awdurdodau Lleol i gyfarfod er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol o 30 y cant o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31

Amrediad cynnydd pwyntiau canran

	Isaf	Uchaf
Grŵp 1	0	0+
Grŵp 2	10	14+
Grŵp 3	8	12+
Grŵp 4	6	10+

Pennwyd yr amrediad is ar gyfer pob grŵp o Awdurdodau Lleol fel bod y targed cenedlaethol o sicrhau bod 30 y cant o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030/31 yn cael ei gyflawni.

Ni ddylid ystyried yr amrediad uchaf yn derfyn uchaf – anogir Awdurdodau Lleol i ragori ar y targedau lle y bo'n bosibl.

Ar gyfer yr Awdurdodau Lleol yng Ngrŵp 1, y nod yw cynnal y ddarpariaeth bresennol o addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal: yn 2017/18, roedd canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 87 a 98 y cant.

Mae'r tabl canlynol yn dangos enghraifft o beth allai'r targedau fod ar gyfer Awdurdod Lleol ym mhob grŵp.

Tabl 4: Enghraifft o dargedau ar gyfer pob grŵp o Awdurdodau Lleol

	2017/18	Canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	
		Targed 2030/31	Targed 2030/31
		Amrediad Isaf	Amrediad Uchaf
Grŵp 1			
Awdurdod Lleol A	93	(93+0) 93	(93+0) 93+
Grŵp 2			
Awdurdod Lleol B	32	(32+10) 42	(32+14) 46+
Grŵp 3			
Awdurdod Lleol C	27	(27+8) 35	(27+12) 39+
Grŵp 4			

Awdurdod Lleol D

6

(6+6) 12

(6+10) 16+

Mae p'un a yw dysgwr Blwyddyn 1 yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio yn cael ei gofnodi yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon ar gael i bob dysgwr pump oed neu'n hŷn.

Mae Tabl 5 yn dangos y targedau ar gyfer 2030/31 ar gyfer pob Awdurdod Lleol gan ddefnyddio'r fethodoleg arfaethedig bresennol.

Tabl 5: Targedau Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar y fethodoleg gyfredol (yn nhrefn y grŵp), 2030/31

	2017/18		targed 2030/31			
	Rhif	Canran	Ystod Isaf		Ystod Uwch	
			Rhif	Canran	Rhif	Canran
Grŵp 1						
Ynys Môn	676	87.3%	675	87%	675	87%
Gwynedd	1,307	98.3%	1,305	98%	1,305	98%
Grŵp 2						
Conwy	293	25.3%	410	35%	455	39%
Dinbych	269	25.5%	375	35%	415	39%
Powys	254	20.1%	380	30%	430	34%
Ceredigion	558	78.5%	620	87%	660	93%
Sir Benfro	277	19.9%	415	30%	470	34%
Sir Gaerfyrddin	1,186	58.0%	1,390	68%	1,470	72%
CNPT	267	17.3%	420	27%	480	31%
Grŵp 3						
Wrecsam	217	13.0%	350	21%	415	25%
Abertawe	436	15.5%	660	24%	775	28%
Bro Morgannwg	245	15.1%	375	23%	440	27%
Rhondda Cynon Taf	530	19.2%	750	27%	860	31%
Merthyr Tudful	94	12.8%	155	21%	180	25%
Caerffili	375	17.9%	545	26%	625	30%
Caerdydd	729	16.7%	1,080	25%	1,255	29%
Grŵp 4						
Sir y Fflint	117	6.6%	225	13%	295	17%
Pen-y-bont ar Ogwr	149	8.7%	250	15%	320	19%
Blaenau Gwent	24	3.3%	70	9%	95	13%
Torfaen	133	12.1%	200	18%	245	22%
Sir Fynwy	52	5.7%	105	12%	146	16%
Casnewydd	107	5.5%	225	11%	305	15%
Cymru	8,295	23.3%	10,980	32%	12,325	35%

Atodiad 2 – adroddiad cynnydd blynyddol

Version Control Ref: 10	Adroddiad cynnydd blynyddol CSGA	Awdur: Cymeradwywyd gan:
Prif lwyddiannau	Crynodeb cyffredinol o'r cynllun – Gwyrdd	Diweddariad deilliannau
	<p><small>Gwyrdd</small></p> <p>Cyflwyniad yn erbyn targedau</p>	
	Data blynyddol allweddol	
Cerrig milltir allweddol/ dibynniaethau allweddol	Risgiau ar lefel deilliant	
Cysylltiad gyda meysydd polisi allweddol	Sicwydd/Mesurau lliniaru	
	Gweithredu a monitro	
Rhagohwg		

Templed cynllun gwaith blynyddol CSGA

Bwriedir i'r cynllun gwaith blynyddol fod yn ddogfen weithiol ymarferol i helpu Awdurdodau Lleol gadw golwg ar gynnydd eu CSGA yn y tymor-byr. Dylai cynnwys y cynllun gwaith fwydo i mewn i'r adroddiad cynnydd blynyddol. Gallai'r cynllun gwaith blynyddol gael ei ddefnyddio a'i fonitro gan fforwm cynllunio addysg Cymru i fesur cynnydd yn ystod y flwyddyn.

Dylai'r cynllun gwaith gynnwys y canlynol;

- Targedau clir, meintiol o dan bob deilliant
- Cysylltiad clir rhwng y targedau a'r ymrwymadau o dan bob deilliant
- Data allweddol
- Unigolyn cyfrifol ar gyfer pob targed
- Amserlen glir ar gyfer pob targed
- Diweddariad
- Proses fonitro fewnol yr awdurdod gan gynnwys Fforwm Cynllunio Addysg Gymraeg.

Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Adran neu Unigolyn cyfrifol	Amserlen	Data Allweddol	Diweddariad ar gynnydd	Dull monitro
Mwy o blant Dosbarth Derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Adran neu Unigolyn cyfrifol	Amserlen	Data Allweddol	Diweddariad ar gynnydd	Dull monitro

